**<u>Cofnodion Cyfarfod CCG 27.10.22</u> Neuadd Cymuned Glantwymyn**

19:404: **Presennol**: Gareth Wyn Jones (Cadeirydd), Deryck Lewis, Bedwyr Fychan, Gareth Owen, William Owen, Aled Griffiths, Rhodri Wigley, Glyn Jones, Gwenfair Rhys-Davies, Iwan Jones, Elwyn Vaughan, Sandra Evans (Clerc)

19:405: **Ymddiheuriadau**: Gwen Lloyd, Paul Hughes, Dafydd Evans, Huw Williams,

19:406: Datganiadau o ddiddordeb: Dim

19:407: Cyflwyno a derbyn cofnodion Medi .22 Cynigiwyd hwn gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones

19:408: Adroddiad y Clerc: Nodwyd bod nifer o ymatebion wedi dod mewn perthynas â'r ambiwlans awyr gan gynnwys James Gibson Watt ac Eluned Morgan.

**19:401:Cynllunio** 19:409: 1: Coeden 19:409: 2: 22/1642/TRE Cyfeirnod Grid: E: 283842 N: 305974 Cynnig: Gwaith ar goeden mewn ardal gadwraeth: Tir ger A470, Cemaes, Powys. Penderfynwyd atal barn gan fod ansicrwydd ynglŷn â lleoliad y goeden

19:409:2: 22/1744/FUL Grid Reference: E:277945 N: 302998 Proposal: Installation of 130kW biomass boiler to include flue and all associated works Site Address: Aberffrydlan, Llanwrin, Machynlleth, SY20 8NA. Cefnogwyd hwn yn unfrydol.

**19:410:1: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**

- Cyflog y Clerc Medi £221.80 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies
- TPJ £1,800.00 Peter Jones - torri gwair mynwentydd Llanwrin a Darowen
- Neuadd Glantwymyn £60.00
- Whittingham Riddell £18.00 Swm heb ei dalu gan y taliadau blaenorol
- Cynigiwyd y dylid talu'r 3 uchod gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths. Bydd llythyr yn mynd at Peter Jones i fynegi gwerthfawrogiad y Cyngor o'i waith cywrain yn y mynwentydd.

**19:410:2: Cyfrifon 21-22** Mae'r cyfrifon wedi mynd at Whittingham Riddell ar gyfer yr awdit mewnol. Mae nifer o bwyntiau wedi cael eu codi a chytunwyd y dylid gweithredu'r camau canlynol yn unfrydol. Mae Deryck Evans Awdit Cymru wedi caniatáu estyniad ar gyfer cwblhau'r cyfrifon tan ddiwedd mis Tachwedd o leiaf. Ceisir cwblhau'r gwaith erbyn hynny. Gwneir y cywiriadau canlynol yn dilyn camgymeriadau clerigol/cofnodi:

- Cafwyd taliad i CThEM a gofnodwyd 21/12/2021 yn £140.53 (101330 18.2.22) yn lle 150.43, sef y swm a dalwyd
- Telir £9.00 i Un Llais Cymru gan na thalwyd y tâl aelodaeth yn llawn. Nodwyd £233 ar yr infois ond anfonwyd siec am £224 yn unol â'r nodyn cyfarchion 02/04/2021. Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies.
- Cytunwyd pawb yn unfrydol y dylid derbyn y cywiriadau hyn.
- Cafwyd sylwad gan yr archwilwyr mewnol nad oedd pob siec a roddwyd gan y Cyngor wedi cael ei thrafod a chytuno. Y sieciau dan sylw yw:

  SARPA £10.00 101309 29.6.21 *Cofnodion* 25/02/2022

  Cyflog y Clerc £228.80 101309 25/02/2022

Whittingham Riddell £138.00 101314 3.11.21, 21/12/2021

Y Lleng Prydeinig 15.11.21. £20.00 101315 21/12/2021

CThEM 3.12.21 101320 150.02 21/12/2021

Stampiau i'r Clerc 21.12.21 101332 £82.70 25/02/2022

26.12.21 101234 Cymdeithas Alzheimer £500.00 25/02/2022

26.12.21 101235 Ambiwlans Awyr Cymru £500.00 25/02/2022

26.12.21 101236 Bronglais – Uned Chemo £500.00 25/02/2022

Anfonir at yr archwilwyr mewnol i nodi bod diweddariadau ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor bob 3 mis. Mae pawb yn gweld pop taliad ac yn eu trafod os bydd angen a chytuno cyn y gwneir y taliadau. Nodwyd hefyd bod yr holl ddiweddariadau ariannol yn cael eu cofnodi gyda'r holl daliadau (anodir hefyd ar yr agenda). Ceir ail gyfle wedyn i bob Cynghorydd weld y diweddariadau ariannol a'r taliadau a chyfle eto i sicrhau bod pawb yn gytun wrth dderbyn y cofnodion yn y cyfarfod canlynol. Tynnir sylw'r archwilwyr mewnol at yr arfer hon a'u sicrhau bod eglurdeb a thryloywder. Fodd bynnag os bydd angen brawddeg benodol i ddweud bod hynny wedi digwydd gwneir hynny yn y dyfodol bydd y Clerc yn cofnodi 'Derbyniwyd yr uchod gan y Cyngor.'.

Nodwyd bod angen derbynebau gan yr elusenau a dderbyniodd rhodd, sef y Lleng Prydeinig, SARPA a 2 infois gan Gloversure. Bydd y rhain yn cael eu darparu.

Tâl y Clerc Tybir bod gordaliad o £106.2 yn y flwyddyn y diweddu 31/03/2022. Cysylltir â chyfrifydd y gyflogres i geisio datrys hwn. Nodwyd bod y system gyflogres yn dryloyw a hygyrch i'r Cynghorwyr.

Cyfrif Cadw'r Cyngor – nodwyd bod £2,000 wedi cael ei thalu i'r cyfrif anghywir gan egluro'r gwahaniaeth yn y cyfanswm. Bydd y personau cyfrifol yn cysylltu â'r banc i gywiro hyn.

**19:410:3: Mandate** – Penderfynwyd ychwanegu enw Iwan Jones at y rhestr o bersonau cyfrifol gan y bydd yn gadeirydd yn y dyfodol agos. Cynigiwyd hwn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Rhys-Davies

**19:410:4: Torch** – Gofynnir i Heather archebu torch ar ran y Cyngor yn ô lei harfer am £20.00 neu swm tebyg os bydd codiad yn y pris. Cynigiwyd hyn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Rhodri Wigley.

**19:411: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**Ysgol Glantwymyn Aled Griffiths** - Bydd Aled Griffiths yn sefyll i lawr fel llywodraethwr sy'n cynrychioli CC Glantwymyn. Er ei fod yn falch o allu gwasanaethu yn y swydd hyd yn hyn roedd e o'r farn mai teg fyddai rhoi cyfle i riant arall gyda phlant yn yr ysgol ar hyn o bryd. Rhodri Wigley yw cynrychiolydd newydd y Cyngor Cymuned ac mae ganddo hefyd gyfrifoldeb am faterion cyllidol. Bydd Rhodri'n ymuno â Dafydd Evans.

**EcoDyfi** – **Iwan Jones** - Bydd Iwan yn mynychu cyfarfod 30.9.22

Dyfodol Dyfi – Gwenfair Rhys-Davies Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben. Mae'r syniadau sydd ar y bwrdd ar hyn o bryd yn cynnwys datblygu'r Cylch Meithrin.

**Cyngor Sir Powys Elwyn Vaughan** Hyddgen – Mae'r Cabinet wedi pasio y bydd y datblygiad hwn yn symud yn ei flaen ac mae hwn i'w croesawu.

Llyfrgell Machynlleth - Mae'r posibiliadau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys llyfrgell newydd fel rhan o ddatblygiad Hyddgen neu gadw'r llyfrgell yn ei lleoliad cyfredol. Cynhelir ymgynghoriad yn fuan.

Perorin, Tal-y-wern Mae nifer o agweddau ar y cais cynllunio wedi cael aros ond mae'r wal a'r balconi'n gorfod cael eu tynnu trwy Orchymyn Cyngor Sir Powys.

Gwasanaeth Ambiwlans Awyr – bydd pryderon y Cyngor llawn yn cael eu datgan wrth gomisiynydd GIG ar y 25ain o Dachwedd. Y gobaith yw y bydd undebau a staff yr ambiwlans awyr hefyd yn datgan eu pryderon yn gyhoeddus.

Meithrinfa – Mae cynlluniau ar waith ar gyfer y Feithrinfa yng Nglantwymyn gan obeithio cynnwys Traed Bêch Twymyn ar y safle.

**19:412: Meinciau** Mae'r arolwg o feinciau'r ardal gan Deryck Lewis a Gareth Owen yn parhau. Nodwyd bod meinciau Llanwrin, Top y Grofft a Chemaes yn iawn.

Cafwyd cais am fainc ym mynwent Darowen gan Mr. Emyr Pughe ar ran trigolion lleol. Cafwyd cais eisoes am fainc newydd i Gwmlline. Penderfynwyd prynu dwy fainc i'r ardaloedd hyn a thrafod prisiau yn y cyfarfod nesaf.

**19:413: Materion Priffyrdd a Phontydd**

- Cwmlline - Mae'r coed wrth y bont angen eu tocio gan eu bod yn beryg i loris sy'n methu gweld ei gilydd ac yn cwrdd ar y bont yn ogystal â cherddwyr.
- Pont troed Cwmlline wrth Gernant angen sylw.
- Cemaes – mae'r arwydd cyfyngder cyflymdra 40 mya ochr Glantwymyn. Gwneir cais am ymestyn y cyfyngder cyflymder y tu hwnt i'r terfynau cyfredol hyd at arwyddion 'Cemaes'. Mae ceir yn teithio'n rhy gyflym ac yn beryg i gerddwyr.
- Cemaes – Giât wedi torri ar y llwybr wrth yr afon y tu ôl i'r fynwent
- Llwybrau cyhoeddus- Cysylltir â Richard Jones i adrodd bod llwybrau cyhoeddus yn Llanwrin tuag at Gae Adda, a hefyd Glandulas, Hendre boeth, Llys Ffrydlan yn ogystal â Chwmlline angen sylw.
- Llanwrin -safle bws wedi dirywio. Cysylltir â chwmni tai Barcud.

**19:415: Unrhyw fater Arall**

- Afancod -Bu Aled Griffiths mewn cyfarfod yng Nghanolfan bywyd gwyllt Cors Dyfi. Ychydig o dirfeddianwyr Bro Ddyfi oedd yno ond cafwyd cynrychiolaeth dda o bysgotwyr oedd yn uchel eu cloch. Ni chymerwyd cofnodion. Bydd y Cyngor yn mynegi barn yn am ymgynghoriad Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- Cafwyd cais i osod baner i gefnogi ymgyrch achub Gwasanaeth Ambiwlans Awyr y Trallwng. Ceir manylion am y pris a chadarnhau bod y faner yn ddwyieithog erbyn y cyfarfod nesaf.
- Bin baw cŵn -Tynnwyd sylw unwaith eto at faw cŵn sy'n ddifrifol yng Nghemaes. Cynigiwyd gofyn i Gyngor Sir Powys a fyddai modd i'r Cyngor wagio bin baw cŵn pe byddai'r Cyngor Cymuned yn prynu bin. Mae'r Cyngor Sir Powys yn gwagio bin eisoes yng Nghwmlline. Nodwyd pryderon eto bod baw cŵn yn peryglu iechyd pobl a phlant yr ardal drwy beri afiechydon a gorfodi pobl i gerdded ar ffyrdd prysur gan beryglu bywydau i osgoi cerdded ynddo. Cynhelir cyfarfod yn y Penrhos nos Sul.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.50

Cynhelir y cyfarfod nesaf **Nos Iau 24.11.22**